Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2022/1021 (Cy. 217) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 1333 (Cy. 270)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# HADAU, CYMRU

# Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 1333 (Cy. 270)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# HADAU, CYMRU

Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

| | |
|---|---|
| *Gofynion sifftio wedi eu bodloni* | *12 Rhagfyr 2022* |
| *Gwnaed* | *13 Rhagfyr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *15 Rhagfyr 2022* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2022.

**Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2018 p. 16. Gweler adran 20(1) am y diffiniad o "devolved authority".

(**2**) O.S. 2012/245 (Cy. 39). Mewnosodwyd paragraff A1 o Atodlen 2 gan O.S. 2020/833 (Cy. 182). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff A1 (dehongli)—

(i) yn y diffiniad o "pla cwarantin parth gwarchodedig", yn lle ""pla cwarantin parth gwarchodedig" ("*protected zone quarantine pest*")" rhodder ""pla cwarantin ardal sy'n rhydd rhag plâu" ("*PFA quarantine pest*")";

(ii) yn y diffiniad o "PRHG", yn lle "yr Undeb" rhodder "Brydain Fawr";

(iii) yn y diffiniad o "pla cwarantin yr Undeb", yn lle ""pla cwarantin yr Undeb" ("*Union quarantine pest*")" rhodder ""pla cwarantin Prydain Fawr" ("*GB quarantine pest*")".

(b) ym mharagraffau 15, 28, 42 a 50 (gofynion cnydau a hadau), ym mhob lle y maent yn digwydd—

(i) yn lle "parth gwarchodedig" rhodder "ardal sy'n rhydd rhag plâu";

(ii) yn lle "yr Undeb" rhodder "Prydain Fawr".

**Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "PRHG", yn lle "yr Undeb" rhodder "Brydain Fawr".

**Dirymu**

**4.** Mae Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 wedi eu dirymu(**2**).

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
13 Rhagfyr 2022

(**1**) O.S. 2017/691 (Cy. 163). Mewnosodwyd y diffiniad o "PRHG" gan O.S. 2020/833 (Cy. 182). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2022/1021 (Cy. 217).